
Traeth a Pharc Gwledig
Pen-bre
Pembrey
Country Park & Beach

# Llongddrylliadau Hanesyddol Cefn Sidan











Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

"Ymestynnai'r traeth i Gydweli; a phob gaeaf byddai'n frith o longau a ddrylliwyd; yn wir roedd y cargo gwerthfawr a'r bywydau a gollwyd yno'n ofnadwy, a gwelodd Bae Caerfyrddin longddrylliadau a dioddefaint dynol dychrynllyd ar draethau peryglus Cefn Sidan, a ymestynnai i'r môr am filltiroedd. Pan fyddai'n drai, ymddangosai'r lle fel anialwch tywodlyd enfawr, ac ar y traethau hynny gellid gweld gweddillion trist y llongddrylliadau am filltiroedd ar filltiroedd i'n hatgoffa amdanynt; eu hestyll a'u hasennau wedi colli eu lliw a phydru ac yn brigo o'r tywod gerllaw'r lle y bu farw'r morwyr anffodus ar y traethau gwyllt, digysgod hynny."

Hwnt ac yma ym mhen gogleddol y traeth mae asennau llongau - sydd wedi hen golli eu lliw a phydru - yn brigo o'r tywod gan fod yn dyst i'r holl hwylio a fu ar hyd ein glannau. Mae'r angorau sydd i'w gweld ger y brif fynedfa i'r traeth hefyd yn gofadail i hanes morwrol Cefn Sidan.



Morio, sef y dull mwyaf effeithiol o deithio am nifer o flynyddoedd, oedd y prif ddylanwad ar ddatblygu ardaloedd arfordirol megis Cydweli, Pen-bre a Llanelli. Gwyddom fod y môr yn hollbwysig ar gyfer cyflenwi a chyfathrebu â'r ddwy gaer Rufeinig yng Nghaerfyrddin ac yng Nghasllwchwr. Yn dilyn goresgyniad y Normaniaid, daeth Caerfyrddin yn "lle morio" pwysig unwaith eto. Mae dogfennau o 1287 yn dangos bod nwyddau wedi cael eu cario i bontydd glanio yn Nhalacharn, Sanclêr, Llanelli, Penclawdd a Chasllwchwr, ac oddi yno. Ar ddechrau'r 13eg ganrif, rhoddwyd trwydded i "Robert o Gydweli", sef capten llong, i fasnachu â Gwasgwyn.


Mae pwt o wybodaeth o 1644 yn sôn am long yn cludo arfau rhyfel i Ddinbych-y-pysgod yn ystod y Rhyfel Cartref - "dan warchae'r seneddwyr, cafodd ei hel gan ffrigad, ond dihangodd i gilfach yn Llanelli"

Mae sawl cofnod am geiau a phontydd glanio "Pilau Gogledd Gŵyr", megis Penclawdd a Llanmadog, yn cyflenwi calchfaen, ond glo, sef "Aur Du" De Cymru, a chwaraeodd ran bwysig yn natblygiad morgludo'r ardal. Mae Leland yn ei "Itinerary" yn 1540 yn esbonio, "Yn Llaneltble, pentref yn Arglwyddiaeth Cydweli, mae'r trigolion yn cloddio am lo."

Cynyddodd y cynhyrchiant wrth i ddulliau cloddio am lo wella, gan beri bod pontydd glanio'r cilfachau a'r pilau yn cael eu disodli gan geiau, porthladdoedd a dociau. Roedd y rhain hefyd yn gwasanaethu'r twf enfawr yn niwydiannau prosesu metel yr ardal. Mae Dociau Cydweli yn 1766, Dociau Llanelli yn 1779, Harbwr Pen-bre yn 1819 a Harbwr Newydd Pen-bre (Porth Tywyn) yn 1836 yn dyst i gyfnod o ddatblygu cynyddol. Mae cofnodion canlynol Doc Llanelli yn dangos y cynnydd amlwg mewn tunelledd:-

1831 - 816 o longau yn cludo 53,884 tunnell

1868 - 2,266 o longau yn cludo 206,693 tunnell




Oherwydd yr holl laid sydd wedi ymgasglu, mae'n destun rhyfeddod heddiw i'r bobl leol ac i'r ymwelwyr sut y gallai porthladdoedd ar y naill ben a'r llall i Gefn Sidan fod wedi bod o unrhyw bwysigrwydd. Roedd gan harbwr Pen-bre, a oedd ar un adeg yn harbwr llanw, dramffyrdd a chamlesi yn arwain ato, ond mae bellach yn forfa heli. Roedd Cei Cydweli, neu Gei Kymer, yn 1797 yn gallu derbyn yn rhwydd longau oedd angen hyd at 18 troedfedd o ddŵr. O ran llongau, mae Cefn Sidan wedi'i alw yn "fin sbwriel yr Iwerydd", ac mae wedi bod yn barod i dderbyn unrhyw long ar ei lannau dros y canrifoedd. Nid yn unig longau dilyn y glannau a llongau masnach teithiau byr, ond hefyd lawer o longau'r môr mawr oedd yn gysylltiedig â masnach a mordeithiau egsotig.

O'r 182 o longau y cofnodwyd eu bod wedi'u dryllio ar Gefn Sidan ers 1668, mae'r rhestr ganlynol yn dangos yr amrywiaeth o lwythi a mordeithiau.

1810. Yr "Union”. Hwylio o Cadiz i Lundain. Llwyth o indigo, copr a chochbryf. Collwyd 14 o fywydau.

1816. Y "William". Hwylio o'r Tir Newydd i Fryste. Llwyth o grwyn morloi ac olew.

1818. "La Providence”. Hwylio o Bordeaux i Dunkirk. Llwyth o aeron meryw, gwin, brandi a choffi. Cafwyd hyd i lawer o bobl leol yn feddw gaib ar y traeth gan yr awdurdodau. Bu farw un dyn oherwydd ei feddwdod difrifol.

1828. "La Jeune Emma”. Hwylio o Martinique i Le Havre gyda rỳm, siwgr a choffi. Collodd tri ar ddeg o bobl eu bywydau gan gynnwys y Lefftenant-cyrnol Coquelin a'i ferch Adeline, sef nith Josephine; cymhares Napoleon Bonaparte.

1833. Y "Brothers”. Hwylio o Bahia i Lerpwl. Ymhlith ei llwyth roedd crwyn byfflos a chotwm. Collwyd 15 o fywydau.


Yn fwy diweddar roedd y llongau canlynol, ac mae'r rhain i'w gweld o hyd:

1886. Y "Teviotdale”. O Gaerdydd i Bombay yn cario glo. Collwyd 17 o fywydau.

1925. Y "Paul". O Halifax yn Nova Scotia i Benrhyn y Santes Ann lle y byddai'n cael ei chyrchfan olaf. Llwyth o bren.

Y ddwy long olaf a gollwyd ar y traeth hwn oedd:
1980. Y "Resolva". Cwch hwylio pleser preifat a oedd ar ei ffordd i ŵyl hwylio ym Mryste. Collwyd 4 o fywydau.

1996. Cafodd cwch hwylio heb enw cofrestredig oedd yn mynd o Foroco i gyrchfan anhysbys ar yr arfordir gorllewinol ei chwythu i'r lan. Ar fwrdd y cwch daethpwyd o hyd i lawer o becynnau mawr oedd wedi'u selio ac yn dal dŵr a oedd yn cynnwys resin canabis oedd yn werth £800,000 petai'n cael ei werthu ar y stryd.




Dros y blynyddoedd, mae enwau amrywiol wedi bod ar wahanol rannau o draeth Cefn Sidan, ac mae ei ffurf wedi newid yn rhyfeddol, ond beth bynnag fo'i enw neu ei siâp, mae gan y traeth hwn sy'n ymestyn am 8 milltir hanes morwrol hir a chyfoethog. Gan wynebu Bae Caerfyrddin, mae Cefn Sidan wedi bod yn gysylltiedig â grŵp o bobl o'r enw Gwŷr y Bwyelli Bach. Mae'r teitl hwn yn cyfeirio at bobl o'r pentrefi cyfagos a oedd yn cario bwyelli wedi'u cynllunio'n unigryw - ac a oedd yn ddelfrydol ar gyfer ysbeilio llongau a drylliwyd! Eu cyfnod mwyaf drwg-enwog oedd rhwng 1770 ac 1870. Yn ystod stormydd liw nos, dywedir eu bod yn cynnau coelcerthi fel goleuadau ar Fynydd Pen-bre. Roeddynt o'r farn y byddai hyn yn denu capten llong i feddwl ei fod wedi gweld golau hafan ddiogel megis porthladd neu harbwr. Eu gobaith oedd y byddai'r llong yn cael ei denu i'r dyfroedd bas er mwyn iddynt allu ysbeilio'i chargo a dwyn oddi ar ei chriw.

Mewn gwirionedd, erbyn i gapten llong weld coelcerth ar y lan yng nghanol storm liw nos, y tebygolrwydd yw bod y llong honno eisoes mewn trafferthion enbyd yn y dyfroedd bas, y banciau tywod ac yn nhonnau'r storm. Ni fyddai capten llong byth yn newid ei thaith tuag at olau anhysbys gan fod golau fel arfer yn cael ei ddefnyddio i ddynodi perygl. Hefyd, nid oedd cynnau coelcerthi, ysbeilio cargo a dwyn oddi ar griwiau yn beth unigryw i'r ardal hon. Roedd arfordir Gogledd a De Dyfnaint, arfordir Cernyw ac arfordir Gorllewin Cymru yn enwog am wneud hyn, felly byddai capteiniaid y môr yn ofalus tu hwnt wrth weld golau rhyfedd ar y lan.

Mae adroddiadau o'r adeg honno'n nodi mai difrod i hwyliau, cael eu chwythu oddi ar eu taith a chamgymeriadau mordwyo i raddau helaeth oedd yn gyfrifol am weld y llongau'n cael eu dryllio ar y glannau bas hyn. Fodd bynnag, ni ellir gwadu nad oedd y weithred ddirmygadwy hon o ddwyn ac ysbeilio'n digwydd. Byddai cargo, hwyliau, rhaffau, dodrefn llongau, teclynnau ac offer yn cael eu cymryd. Byddai eiddo'r criw a'r teithwyr, boed yn farw neu'n fyw, yn cael ei gymryd. Byddai'r eitemau anodd eu tynnu oddi ar y cyrff, megis modrwyau, yn cael eu cymryd gan ddefnyddio bwyelli i dorri'r bysedd. Dywedwyd bod gan Adeline, nith i gydymaith Napoleon Bonaparte, ddau o'i bysedd ar goll. Roedd adroddiadau a gohebiaeth y cyfnod yn eu galw'n "Lladron Glan y Môr".





Wrth ddarllen cofnodion ac edrych ar gyrchfannau'r llongau, mae'n ymddangos mai camgymeriadau mordwyo, difrod i hwyliau neu'r llongau'n cael eu chwythu oddi ar eu cwrs yw'r rhesymau mwyaf tebygol. Er hynny, boed llong yn diweddu ar y traeth yn fwriadol neu beidio, roedd y canlyniad bob amser yr un fath. Heb falio dim am oroeswyr y llongddrylliadau, byddai'r lladron yn mynd ati i ddwyn ac ysbeilio. Ni fyddai unrhyw beth o werth yn cael ei adael ar ôl, a byddai'r cargo, dodrefn y llongau, yr hwyliau, y rhaffau, y teclynnau a'r offer i gyd yn cael eu cymryd. Byddai hyd yn oed eiddo'r criw a'r teithwyr, boed yn farw neu'n fyw, yn cael ei gymryd. Byddai'r eitemau anodd eu tynnu oddi ar y cyrff, megis modrwyau, yn cael eu cymryd gan ddefnyddio bwyelli i dorri'r bysedd.

Roedd adroddiadau a gohebiaeth y cyfnod yn eu galw'n "Lladron Glan y Môr". Dyma hysbyseb a gyflwynwyd i asiantaethau llongau gan fasnachwyr llongau Llanelli ym mhapur newydd The Cambrian ar 14 Mawrth 1818:-

“Rydym yn dymuno hysbysu nad yw Traeth Cefn Sidan, lle y mae'r rhan fwyaf o'r llongddrylliadau wedi digwydd, yn ffurfio unrhyw ran o Harbwr Llanelli.”

Pan ddrylliwyd "La Providance", daeth ysbeilwyr o Gydweli hyd at y Pwll fel haid o wenyn o amgylch potyn o fêl i fanteisio ar ei chargo o win a brandi.

“Gan greu'r golygfeydd mwyaf gwarthus, roedd o leiaf 2,000 o ddynion a menywod wedi dod ynghyd ar y lan gan ysbeilio popeth y gallent ei gael o'r llong, gan dorri cloriau casgenni ac yfed i'r fath raddau hyd nes eu bod yn feddw gaib. Daethpwyd o hyd i un wedi marw ar ôl mygu ac roedd dau arall ar goll.”

Pan ddrylliwyd "Die Gute Hoffrung" yn 1842, roedd "y crwydriaid sy'n prowlan hyd y glannau" wedi dwyn eiddo a dillad sbâr y Capten a'i wraig.

Roedd y "Paul", a oedd yn hwylio o Haliax yn Nova Scotia i Benrhyn y Santes Ann, yn dilyn cyfarwyddiadau pendant o ran pa borthladd yn Ne Cymru y dylai ei chargo o bren fynd iddo. Yn anffodus, am naw niwrnod olaf ei thaith 27 diwrnod, cafodd hwyl ar ôl hwyl eu rhwygo gan wyntoedd cryfion. Ar 30 Hydref, 1925, cafodd y llong ei chario'n ddiymadferth gyda'r llif i Fae Caerfyrddin mewn niwl trwchus ac yn y tywyllwch, gan gael ei dryllio yn y fan honno, sef man a elwir bellach yn Drwyn y Tywyn. Dywedir bod gan lawer o dai yn Llan-saint a Chydweli bren cain o dramor yn rhan o'u saernïaeth!

Heddiw, mae olion y llongddrylliadau sy'n dal i fod yng Nghefn Sidan mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ym mhen gogleddol y traeth, a byddai'n rhaid cerdded tua 10 milltir er mwyn gallu gweld yr holl olion. Hefyd, mae pen gogleddol y traeth ar gau rhwng dydd Llun a dydd Gwener oherwydd bod maes bomio'r Awyrlu yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, mae'r ceunentydd a'r banciau tywod yn beryglus ac mae'r llanw'n gallu dod i mewn yn gyflymach nag y gall dyn gerdded, felly nid yw'n ddoeth i unrhyw un ymweld â'r safle.







Yn 1859 pan gamgymerodd "Syr Henry Pottinger", a oedd yn hwylio o Beriw i Lerpwl, y golau ar Ynys Bŷr am olau Tuskar, ymddangosodd pedwar o Ben-bre gerbron Llys Ynadon Llanelli wedi'u cyhuddo o "ddwyn eitemau" o'r llong. (Bryd hynny, roedd Plwyf Pen-bre yn ymestyn o Gydweli i'r Pwll). Roedd y llong yn cario bariau arian a mwyn copr a oedd yn werth £25,265 ar yr adeg honno.

Roedd atgyfnerthu barics y milisia yn y Pwll yn nodi dechrau'r diwedd i'r lladron wrth i batrolwyr fynd ar gefn ceffylau ar hyd y traeth yn rheolaidd. Ym mis Hydref 1886, cafodd 30 o ddynion a menywod eu harestio yn ceisio dwyn oddi ar y "Teviotdale" tra oedd 17 o gyrff y criw yn gorwedd ar ymyl y traeth.

Mae olion un llongddrylliad i'w gweld filltir i fyny'r traeth o fynedfa B, ond mae mwy a mwy o'r olion yn diflannu o flwyddyn i flwyddyn. Gellir gweld yr olion, cyn belled â bod y llanw dros draean o'r ffordd allan, wedi'i leoli ger grwyn cerrig. Cafodd yr angorau sydd i'w gweld wrth brif fynedfa'r traeth eu canfod ger y marc distyll o flaen olion y llongddrylliad hwn ond nid oes prawf bod unrhyw gysylltiad rhyngddynt.



Hyd heddiw mae rhai rhannau o long, a wnaed ag estyllod cyfwyneb, yn codi rhyw 6 troedfedd uwchlaw'r traeth. Llong ar gyfer hwylio'r moroedd mawr oedd hon ac mae ei gweddillion yn gorwedd ar linell o'r gogledd-ddwyrain hyd at y de-orllewin. Mae'r hyn sy'n weddill o gragen y llong yn mesur 164 troedfedd a gellir gweld lle torrwyd rhan helaeth o ochr chwith y llong i ffwrdd er mwyn gallu tynnu'r cargo oddi yno'n hawdd. Mae samplau wedi'u cymryd o dair o'r fframiau ar ochr chwith y llong ar gyfer dadansoddi dendrocronolegol, ac o edrych ar gronolegau cydnabyddedig, amcangyfrifwn fod y fframiau wedi'u creu o dderw o Ogledd Ewrop yn ail hanner y 1800au. Wrth archwilio'n agos, gellir hefyd weld gosodiadau metel, hoelion pren a hoelion copr â thoriad sgwâr.



www.pembreycountrypark.wales

Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored
Outdoor Recreation Service